# Adroddiad Arolygu

**Danielle Roberts**

**Wrecsam**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl Cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Caiff y plant ofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu llesiant. Maent yn cyfathrebu'n dda a gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau am y ffordd i dreulio eu hamser. Mae'r plant wedi ymlacio ac maent yn hapus wrth iddynt lunio cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'r plant eraill. Maent yn mwynhau eu profiadau sy'n eu galluogi i ddysgu a datblygu amrywiaeth o sgiliau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi polisïau ac arferion effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae'n darparu dewisiadau o fyrbrydau iachus ac yn sicrhau bod y plant yn cadw'n heini yn rheolaidd ac yn cael awyr iach. Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar, ac mae'n effeithiol wrth gefnogi'r plant i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau drwy ddarparu adnoddau a gweithgareddau priodol a diddorol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored mewn cyflwr da ac yn groesawgar. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a gweithgareddau i ysbrydoli'r plant ac i ddatblygu eu chwilfrydedd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn dda. Mae'n sicrhau bod y gwaith papur wedi'i gwblhau ac yn drefnus iawn. Mae'n hunanwerthuso'r gofal y mae'n ei ddarparu ac yn gwneud gwelliannau. Mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni ac mae'n datblygu ymdeimlad o berthyn y plant gydag ymweliadau a theithiau cerdded i leoedd lleol o ddiddordeb.

## Llesiant — Da

Caiff y plant ofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu llesiant. Maent yn hyderus i symud o amgylch yr amgylchedd a dewis o blith yr adnoddau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut a ble i dreulio eu hamser. Er enghraifft, roeddent yn symud rhwng yr ystafell chwarae dan do a'r awyr agored. Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda am eu bod yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando ar eu barn a'u safbwyntiau ac yn ymateb iddynt yn dda. Er enghraifft, wrth ofyn am wahanol fwydydd amser byrbryd.

Mae'r plant yn ymlacio yng ngofal y gwarchodwr plant wrth iddynt feithrin partneriaethau cadarnhaol sy'n sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael eu cefnogi. Maent yn gwahanu'n dda o'u rhieni ac yn fodlon ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau. Wrth gyrraedd aeth y plant yn syth i'r adnoddau a dewis yr hyn roeddent am chwarae gydag ef. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a dethlir eu cyflawniadau drwy eu canmol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant eraill yn y lleoliad. Roeddent yn siarad yn gynnes am y plant nad oeddent yn cael gofal ar y diwrnod hwnnw, gan gynnwys plant y gwarchodwr plant, a oedd yn gyffrous i glywed y byddent gartref yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw. Mae'r plant yn dysgu i gydweithredu a chymryd eu tro wrth iddynt chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, roeddent yn fodlon rhannu'r adnoddau wrth iddynt chwarae yn y tŷ doliau gyda'i gilydd. Mae'r plant yn mynegi empathi tuag at ei gilydd, gan ddeall eu hanghenion. Er enghraifft, helpu eraill i gael yr adnoddau y maent am eu cael. Mae'r plant yn barchus tuag at ei gilydd ac wrth iddynt ddefnyddio'r adnoddau, gan helpu i'w rhoi o'r neilltu pan ofynnir iddynt wneud hynny a'u defnyddio'n briodol.

Mae'r plant yn frwdfrydig i ddewis gweithgaredd am eu bod yn mwynhau eu chwarae a'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser am eu hoedran a'u cam datblygu am eu bod yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Er enghraifft, gwnaethant fwynhau cwblhau'r posau ac adeiladu tŵr tal. Caiff y plant ryddid i ddewis a ydynt am chwarae gyda'r gweithgareddau awyr agored ac maent yn fodlon rhannu eu profiadau gydag eraill. Er enghraifft, wrth ddewis lliw'r dŵr roeddent wedi'i wneud i ni.

Mae gweithgareddau cyffrous sy'n briodol i oedran ar gael i'r plant ac adnoddau i'w helpu i ddysgu a datblygu. Maent yn hyderus i arbrofi a datrys problemau wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, pan roeddent am adael y tap dŵr ymlaen ond ddim am iddo fynd ar y llawr, gwnaethant roi bwced yno i ddal y dŵr. Mae'r plant yn hyderus i roi cynnig ar bethau eu hunain cyn gofyn am gymorth ac yn gwybod yr arferion a lle y caiff eitemau eu storio er mwyn iddynt fod yn annibynnol. Er enghraifft, wrth wisgo eu hesgidiau glaw eu hunain i fynd allan i'r awyr agored.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldeb i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'n deall y weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon diogelu. Mae'n dilyn arferion priodol i sicrhau bod y plant yn ddiogel gan gynnwys cwblhau cofrestrau o bresenoldeb y plant er mwyn gallu cadarnhau bod pawb yn bresennol mewn argyfwng.

Mae'r gwarchodwr plant yn effeithiol wrth hyrwyddo ffordd o fyw iachus. Mae wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf i'w chefnogi i ddelio â damweiniau a phroblemau meddygol yn briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau newid cewynnau effeithiol ac yn sicrhau bod hylendid, fel golchi dwylo, yn gyson er mwyn helpu i atal lledaenu germau. Mae cyfleoedd rheolaidd ar gael er mwyn i'r plant gael awyr iach a bod yn heini, drwy fynd allan i'r awyr agored a mynd ar deithiau i barciau lleol.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn fodel rôl da i'r plant. Mae'n siarad â nhw mewn modd gofalgar a pharchus sy'n eu hannog i gyfathrebu. Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn dda i ymdrechion y plant i gyfathrebu gan gynnwys rhai sy'n defnyddio ciwiau dieiriau. Er enghraifft, mynd i nôl yr adnoddau pan fydd y plant yn pwyntio tuag atynt i ddangos yr hyn maent am ei chwarae ag ef nesaf. Mae'r gwarchodwr plant yn annog profiadau cymdeithasol. Mae'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd yn ystod profiadau chwarae ac arferion megis amser byrbryd ac amser cinio, gan eistedd a siarad â'r plant am eu diddordebau a'u profiadau.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant sy'n eu galluogi i ddarparu gofal, cymorth ac adnoddau sy'n briodol o ran oedran. Mae'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau chwarae a dysgu sy'n ysbrydoli'r plant i chwarae a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gweithdrefnau priodol ar waith i olrhain a chofnodi datblygiad y plant a chynllunio ar gyfer camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth ac yn darparu adnoddau ac arferion sy'n helpu'r plant i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain ac yn datblygu eu hyder ymhellach. Er enghraifft, ar ôl i'r plant olchi eu dwylo yn barod ar gyfer amser byrbryd aethant yn syth i'r man lle caiff platiau a chwpanau eu storio a gosod y bwrdd ar eu cyfer nhw eu hunain a phlant eraill.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'n cadw'r brif fynedfa dan glo ac yn rheoli mynediad fel na all unrhyw un ddod i mewn heb awdurdod. Mae'r rhan fwyaf o'r gwiriadau wedi eu cwblhau; fodd bynnag, gwnaethom nodi nad yw'r gwiriad diogelwch nwy wedi'i gwblhau mewn modd amserol. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da iawn ac yn cael ei gadw'n lân, ac felly mae'n lle addas i'r plant. Mae'r ardal awyr agored wedi'i hamgylchynu gan ffens ddiogel ac mae'r giât yn cael ei gadw dan glo. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg ar bob ardal y mae'r plant yn ei defnyddio, gweithgareddau rheolaidd a lleoedd y byddant yn ymweld â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn addas. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae'n cwblhau gwiriadau dyddiol er mwyn gwneud yn siwr nad oes unrhyw beryglon newydd wedi codi.

Mae'r gwarchodwr wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol iawn i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod lle da ar gael i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Dan do, defnyddir yr ystafell fyw ar gyfer gweithgareddau chwarae rhydd ac mae ardal y gegin ar gael ar gyfer byrbrydau a chinio. Mae'r garej wedi'i adnewyddu i ddarparu ystafell chwarae ychwanegol i'r plant. Mae hwn yn lle arbennig ac yn rhoi rhwydd hynt i'r plant fynd allan i'r awyr agored. Mae'r ardal awyr agored wedi'i gwahanu'n ddwy ardal sy'n darparu gwahanol gyfleoedd i'r plant. Mae'r ardal laswelltog yn lle gwych ar gyfer gweithgareddau mwy corfforol fel gemau pêl. Defnyddir yr ardal patio ar gyfer chwarae blêr. Mae pob ardal, dan do ac yn y awyr agored yn groesawgar ac mewn cyflwr da iawn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod adnoddau rhagorol ar gael i'r plant sy'n eu hysbrydoli i fod yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig. Mae wedi rhoi ymdeimlad naturiol iawn i'r adnoddau am fod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol neu eitemau y byddent yn dod o hyd iddynt mewn bywyd go iawn. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau defnyddio'r sosbenni â gwahanol liwiau dŵr i wneud gwahanol liwiau a chawsant hwyl yn glanhau'r ceir reidio â'r brwshys golchi llestri a'r sebon ewynnog. Mae'r adnoddau i helpu'r plant i fod yn greadigol yn hawdd eu cyrraedd gyda thoes chwarae, tywod a deunyddiau crefft ar gael yn hwylus. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r amgylchedd mewn modd sy'n sicrhau bod lle i'r plant symud o amgylch yn ddiogel ac i gael mynd i'r ardaloedd dysgu a grëwyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda. Mae'n sicrhau bod y cofnodion, gan gynnwys y rhai o'r plant sy'n mynychu, wedi'u cwblhau a'u diweddaru. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn bodloni'r gofynion ac yn adlewyrchu'r arferion cyfredol. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y rhieni i benderfynu ai dyma'r gofal cywir ar gyfer eu plentyn. Mae'r holl waith papur yn drefnus iawn, ac felly mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd hunanwerthuso ac adolygu a gwneud gwelliannau'n gyson. Mae wedi cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal ac wedi casglu safbwyntiau'r rhieni a'r plant. Mae'r adolygiad hwn yn tystio ei bod wedi nodi meysydd y mae'n awyddus i'w datblygu. Fodd bynnag, gellid gwella hyn â mwy o fanylder am yr hyn y mae wedi'i wneud yn dda a sut mae safbwyntiau'r rhieni a'r plant wedi cael eu hystyried.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei hyfforddiant craidd yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys cymorth cyntaf a diogelu. Mae hefyd yn cwblhau Mathau eraill o hyfforddiant sy'n llwyddiannus wrth ei chefnogi i gyflwyno syniadau newydd ac arferion effeithiol er mwyn cefnogi chwarae a dysgu'r plant. Er enghraifft, hyfforddiant darnau rhydd a fynychwyd gan y gwarchodwr plant ac mae wedi rhoi hyn ar waith yn ei lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ganddi hi ei hun ac aelodau o'r aelwyd sydd dros 16 oed wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthynas dda â'r rhieni. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am brofiadau a datblygiad eu plant drwy ap a thrwy gael trafodaethau â nhw pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant. Roedd yr ymatebion a welwyd gan yr holiaduron a anfonodd y gwarchodwr plant at y rhieni yn dweud bod yr holl gyfathrebu yn rhagorol. Mae'r gwarchodwr plant yn cwrdd â gwarchodwyr plant eraill yn rheolaidd gan roi cyfle iddi rannu arferion da ac iddi hi a'r plant gael profiadau cymdeithasol. Mae ymweliadau rheolaidd i leoedd lleol o ddiddordeb a theithiau cerdded o gwmpas yr ardal leol yn hyrwyddo ymdeimlad y plant o berthyn yn y gymuned.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod gwiriadau diogelwch nwy yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod yr adroddiad ar ansawdd y gofal yn cynnwys yr hyn sydd wedi mynd yn dda a sylwadau gan rieni a phlant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/04/2024